# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(258)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau i fynd i'r afael â'r nifer frawychus o danau glaswellt a gaiff eu cynnau yn fwriadol? EAQ(4)0548(PS)

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y diweddaraf am weithredu Dedd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Strategaeth Digidol yn Gyntaf (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Mannau Glanach, Mwy Diogel ar gyfer**

**ein Cymunedau (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru (30 munud)**

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y tair eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**7 Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3736 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**8 Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3737 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**9 Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3738 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**10 Dadl ar Wasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru (60 munud)**

**NDM3739 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi:

a) bod gwasanaeth clinigol newydd yn cael ei gyflwyno i Gymru, sef Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys, a

b) bod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cleifion mewn ardaloedd anghysbell a gwledig fynediad cyflym i ymgynghorydd mewn meddygaeth gofal dwys neu ofal brys.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Yn is-bwynt b), dileu 'cyflym' a rhoi 'gwell' yn ei le.

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod mynediad at wasanaethau brys yng Nghymru wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i israddio ysbytai, perfformiad gwasanaeth

ambiwlans gwael a'r toriadau mwyaf erioed i gyllideb y GIG.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant parhaus y gwasanaeth ambiwlans i gyrraedd ei dargedau ar gyfer amseroedd ymateb a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau brys yng Nghymru.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gronfa gofal canolraddol i atal galwadau diangen ar y system gofal brys.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2015 y bydd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn cael cyllid gwerth £1.5 miliwn o ddirwyon LIBOR i helpu i ariannu cyfarpar newydd a hyfforddiant.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sefydlu Canolfan Gofal Brys yn Sir Drefaldwyn i ddod â gofal yn nes at ein cymunedau a lleihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn Wrecsam a'r Amwythig, oherwydd y nifer cynyddol o gleifion sy'n teithio'n bell i gael mynediad at ofal o ganlyniad i ddiffyg cynllunio cydgysylltiedig rhwng byrddau iechyd.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fwy o fuddsoddi mewn ysbytai bwthyn a gofal yn y gymuned, i helpu i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau brys.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Ebrill 2015